# THEMA: Bod yn Arwr Ynni

## CEFNDIR

Mae'n Wythnos Hinsawdd Cymru'r wythnos hon a heddiw, bu'r disgyblion yn dysgu popeth am ynni:

- Pa fathau o ynni sydd yno
- Y gwahaniaeth rhwng ynni adnewyddadwy ac ynni nad yw'n adnewyddadwy
- Effaith ynni nad yw'n adnewyddadwy ar y blaned
- Sut i adnabod arferion da a rhai gwael wrth geisio arbed ynni
- Defnyddio graffiau i adnabod tueddiadau mewn defnyddio ynni
- Ffyrdd o gynorthwyo'r ysgol i ddefnyddio llai o ynni.

Bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn arolwg ynni, gan asesu faint o ynni mae'r ysgol yn ei ddefnyddio drwy lunio eu graffiau eu hunain a thrafod pam fod yr ysgol yn defnyddio mwy o ynni ar rai adegau o'r flwyddyn. Wedyn bu'r dosbarth cyfan yn trafod sut y gallai'r data a gasglwyd fod o fudd i'r ysgol wrth geisio defnyddio llai o ynni.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Ynni Nad yw'n Adnewyddadwy | Ynni sy'n dod o adnodd naturiol cyfyngedig, gan gynnwys glo, olew a nwy naturiol; fe'i gelwir hefyd yn danwydd ffosil. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n llawer cynt nag y mae tanwydd newydd yn ffurfio. |
| Ynni Adnewyddadwy | Ynni sy'n dod o adnoddau naturiol nad ydynt yn diflannu'n gynt nag y'u defnyddir, gan gynnwys golau'r haul, gwynt a gwres geothermol (gwres o dan ddaear). |
| Newid Hinsawdd | Newid hirdymor yn nhymheredd cyfartalog y Ddaear a'r tywydd. |
| Effeithlonrwydd Ynni | Defnyddio llai o ynni i gyflawni'r un dasg ac atal gwastraffu ynni. |
| Defnyddio Ynni | Y swm o ynni a ddefnyddir yn gyffredinol ar gyfer rhyw weithgaredd neu broses benodol. |

### Gweithgaredd adref

#### Helfa Ynni ar yr Aelwyd

Mae'r Helfa Ynni ar yr Aelwyd yn weithgaredd iti ei wneud adref ar dy ben dy hun neu wrth gystadlu â rhywun arall. Fe fyddi di eisiau dod o hyd i gymaint â phosib o eitemau yn y tŷ sy'n defnyddio ynni a'u rhoi yn eu trefn o'r rhai sy'n defnyddio'r mwyaf o drydan i'r rhai sy'n defnyddio'r lleiaf.

*Offer:*

- Pad ysgrifennu
- Beiro

*Cyfarwyddiadau*

Gellid gwneud hyn fel gêm neu mewn criw i weld pwy sy'n dod o hyd i'r mwyaf o eitemau.

- Dos o gwmpas y tŷ a gwna restr o'r holl eitemau y gwyddost ti sy'n defnyddio ynni.
- Rho'r rhain yn eu trefn o'r rhai sy'n defnyddio'r mwyaf o drydan i'r rhai sy'n defnyddio'r lleiaf.
- Cadarnha dy atebion drwy gael golwg ar label yr eitem, holi rhiant, edrych mewn llyfr neu ar y rhyngrwyd.
- Wedyn, llunia system coch, oren a gwyrdd ar gyfer yr eitemau yn y rhestr:
    - → Coch = Peidio byth â diffodd
    - → Oren = Diffodd pan mae oedolyn yn dweud fod hynny'n iawn
    - → Gwyrdd = Diffodd pan mae'n segur

## DOLENNI AC ADNODDAU

**Fideos a Gwefannau**

How is Electricity Made (9:44 o funudau)

Fossil fuels & Renewable energy (1:50 o funudau)

How to Save Energy BBC Bitesize – sydd hefyd yn cynnwys fideo am arbed ynni (2:37 o funudau)

**Gweithgareddau i'w gwneud gartref**

Beth sy'n Llyncu'r Holl Bŵer? CA2

National Energy Action Gweithgareddau ar-lein gan gynnwys:

- Bod yn dditectif ynni
- Bod yn arbenigwr ynni iau

**Cadw'n Gynnes Gartref yn y Gaeaf: Awgrymiadau a Chymorth ar gyfer Cartref Cynhesach a Mwy Effeithlon**

Awgrymiadau Arbed Ynni Cyngor Sir y Fflint

Canllawiau syml ynglŷn ag arbed ynni yn y cartref gydol y flwyddyn.

**Nyth neu ffonio am ddim ar 0808 808 2244**

Nod cynllun Nyth Llywodraeth Cymru yw gwneud cartrefi pawb yng Nghymru'n gynhesach ac yn fwy effeithlon. Mae Nyth yn darparu cyngor diduedd yn rhad ac am ddim i aelwydydd drwy Gymru i'w helpu i gwtogi ar eu biliau ynni, gwneud y gorau o'u hincwm a lleihau eu hôl troed carbon.

Efallai eich bod yn gymwys hefyd i gael gwaith am ddim fel bod eich cartref yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon, gan gynnwys gosod deunydd inswleiddio, systemau gwresogi neu baneli solar.

**Eco 4/flex**

Cynllun cenedlaethol i helpu pobl ar aelwydydd incwm isel a diamddiffyn i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Os nad yw eich cartref yn defnyddio ynni'n effeithlon ac yn dibynnu ar eich amgylchiadau chi, efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn cyllid ar gyfer gwaith i wella effeithlonrwydd ynni'r cartref fel adnewyddu systemau gwresogi ac inswleiddio.

**Ymddiriedolaeth Arbed Ynni: Top 10 Energy Saving Tips**

**Cysylltu â Thîm Ynni Domestig Cyngor Sir y Fflint**

Mae'r tîm yn darparu cyngor diduedd yn rhad ac am ddim ynglŷn ag arbed ynni, amryw ffynonellau cyllid a gwasanaethau sydd ar gael i helpu pobl i arbed ynni. Fe gewch chi fwy o wybodaeth am y cymorth y gallant gynnig ar wefan y Cyngor.